



Pob Lleoliad Gofal Plant a Gofal Dydd yng Nghymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Gyfaiil

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch atgoffa o'r gofynion o ran cymwysterau ar gyfer staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gofal dydd, gan gynnwys chwarae mynediad agored a lleoliadau gofal plant tu allan i'r ysgol.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed yn datgan bod yn rhaid i bob person â chyfrifoldeb, a chyfran o'r staff nad ydynt yn goruchwylio ond sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gofal dydd a reoleiddir i blant 0 i 12 oed, feddu ar gymhwyster perthnasol. Nodir hyn yn safonau 13.6 (DC) a 13.7 (DC) Gofal dydd. Rhoddodd Cylchlythyr WGC 006/2017

https://llyw.cymru/newidiadau-ir-safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-staffio-wgc0062017?_ga=2.241149824.2068903849.1578652166-368481919.1571821202

gyfnod paratoi i leoliadau **a ddaeth yn destun cofrestru** yn dilyn ehangu'r gofynion cofrestru o 8 i 12 oed, gan ofyn iddynt fodloni'r safonau perthnasol erbyn 30 Medi 2021 gan nad oeddent eisoes wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru nac yn ddarostyngedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fe wnaeth hefyd roi yr un amser i **bob** lleoliad sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0 a 12 oed, boed wedi'u cofrestru eisoes neu newydd gofrestru, drefnu bod eu staff yn mynd ati i ennill y cymwysterau gwaith chwarae ychwanegol sydd eu hangen i weithio gyda phlant 8 oed a hŷn. Felly, erbyn 30 Medi 2021, bydd pob person â chyfrifoldeb, a chyfran o staff nad ydynt yn goruchwylio sy'n gweithio ym mhob lleoliad gofal plant a gofal dydd a reoleiddir gan gynnwys lleoliadau chwarae mynediad agored, yn meddu ar gymhwyster perthnasol.

Yn unol â pharagraff 5 Cylchlythyr 006/2017 Llywodraeth Cymru, nid yw'r llythyr hwn yn berthnasol i Warchodwyr Plant.

Mae'r *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru* gan SkillsActive yn rhoi canllawiau ynghylch y cymwysterau galwedigaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae gyda phlant o dan 12 oed. Gellir ei lawrlwytho yma:

https://www.skillsactive.com/PDF/List_of_Required_Qualifications_May_2017_WELSH.pdf

Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PTEC Cymru) wedi datblygu siart lif sy'n disgrifio pa gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol leoliadau a staff o fewn y lleoliadau hynny. Gellir gweld y siart yn:

<https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/Qualifications/Llifsiart%20Cymwysterau%20Gwaith%20Chwarae.pdf>

Mae'r Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru i'w chael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rhestr hon yn dangos y cymwysterau galwedigaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gellir ei lawrlwytho yma:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/fframwaith-cymwysterau>

I'ch helpu i gwrdd â'r gofynion hyn, mae'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant yn darparu cyllid penodol i helpu'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i ddatblygu a gwella eu lefel sgiliau. Bydd y rhaglen a'r cyllid yn cefnogi nifer o lwybrau a fydd yn cynyddu mynediad at gymwysterau i bobl sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi Llwybr i Chwarae a fydd ar gael ddechrau'r flwyddyn yma. Bydd y darparu cyllid i bobl allu astudio ar gyfer dyfarniadau llai o faint a fydd yn ategu ac yn ychwanegu at y sgiliau a'r cymwysterau sydd ganddynt eisoes.


Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen yn treialu Prentisiaethau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygu Plant (CCPLD) a Phrentisiaethau Gwaith Chwarae i bobl sy'n gweithio rhwng 10 ac 16 awr yr wythnos. Nid yw CCPLD yn disodli'r gofyniad am gymhwyster gwaith chwarae oni bai ei fod yn cael ei ddal gyda'r Dyfarniad Pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae.

<https://llyw.cymru/cyflwyno-cais-am-gyllid-i-hyfforddi-staff-yn-y-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant-chwarae>

<https://llyw.cymru/cyllid-i-hyfforddi-staff-sectoraur-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant-chwarae-taflen-wybodaeth-ar-gyfer>

Rwyf am i chi nodi'r gofynion ar gyfer eich lleoliad chi, ac rwy'n eich annog i weithredu nawr gan ein bod yn disgwyl galw mawr am yr hyfforddiant. Drwy gymryd y camau hyn, byddwch yn sicrhau bod eich staff, fel nodir uchod, yn meddu ar y cymwysterau perthnasol erbyn **30 Medi 2021**.

Yn gywir



Nicola Edwards

**Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Deputy Director Childcare, Play and Early Years Division**

Cc:

Arolygiaeth Gofal Cymru; Gofal Cymdeithasol Cymru; SkillsActive Cymru;
Chwarae Cymru; CWLWM; AWARE; CLILC; Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol;
Cydgysylltwyr Chwarae Awdurdodau Lleol; Cydgysylltwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd